**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Rhagfyr 15fed 2014 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes, Raymond Bartley, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin L Hughes, Mark Young, Roy Tickle, Shereen Devine, Gaynor Wood, Catherine Jones, a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Colin Hughes, Brian Davies, Philip Stevens, Margaret Bowe.

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod olaf 2014.

**153. Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**154. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng. Gaynor Morgan Rees - eitem agenda 7(14) - gohebiaeth - Theatr Twm o'r Nant
(2) Cyng. Colin L Hughes - eitem agenda 9(1) - Cymorthdaliadau - Gwefr Heb Wifrau.
(3) Cyng. Roy Tickle - item agenda 9(1) - cymorthdaliadau - Clwb Golff Dinbych
(4) Cyng. Geraint Williams - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(5) Cyng. Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.

**155. Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Dachwedd 24ain 2014.**

**156. Materion yn codi:** (1) Cofnod 147 - TGC. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Graham Boase ynglŷn â CCTV - nodwyd yr ymateb.
(2) Cofnod 149(1) - Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir - Lôn Ganol. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Paul McGrady - nodwyd yr ymateb.
(3) Cofnod 151 - Awgrymiadau cyllideb CSDd. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb e-bost a dderbyniwyd oddi GSDd - nodwyd yr ymateb.
(4) Cofnod 148(3) - Arwyddion ar yr A55. Cyfeiriodd clerc y dref at y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Ann Jones AC a'r e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Cris Ruane AS - nodwyd y ddau. Cytunwyd hefyd i'r cyngor tref gysylltu â'r ddolen ar Facebook.

**157. Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Ymhelaethodd y Maer ar ddigwyddiad diweddar a drefnwyd gan Bwyllgor y Carnifal. Dywedwyd fod y digwyddiad wedi bob yn un poblogaidd a llongyfarchwyd y trefnwyr.

**158. Llythyrau a Hysbysiadau:** Cytunwyd i nodi un ar bymtheg o eitemau o ohebiaeth a dderbyniwyd

2. Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Un Llais Cymru - Partïon Gerddi Palas Buckingham - cytunwyd i gyflwyno enw'r Maer.
(2) Cystadleuaeth Golff CCTCGC - cadarnhaodd y Cyng Roy Tickle y bydd tîm Dinbych yn cynnwys dau aelod o adran y merched.
(3) E-bost oddi wrth Charlie Hobson ynglŷn â Grŵp Busnes Dinbych. Cytunwyd i dderbyn yr e-bost gyda diolch.
(4) E-bost oddi wrth y Cynghorydd Gwyneth Kensler ynglŷn â'r bin sbwriel ar waelod Lôn Brombil. Cytunwyd, yn hytrach na chael gwared a'r bin yn gyfan gwbl, y dylai gael ei adleoli.
(5) Cyfarfod o Helwyr Dinbych a Fflint bore dydd Sant Steffan. Nodwyd gyda diolch ymateb yr Helwyr.
(6) Cyfarfod cyhoeddus Capel Mawr 13.1.15. Cytunwyd fod y Cyng Rob Parkes, Catherine Jones a Gaynor Wood yn cynrychioli'r cyngor tref.

(7) Cyfeiriwyd y cais am gymorthdaliadau a dderbyniwyd oddi wrth Theatr Twm o'r Nant at yr is bwyllgor cymorthdaliadau.
(8) Nodwyd yr ymateb e-bost a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ynglŷn â rheiliau ar y Stryd Fawr. Gofynnwyd a oedd CSDd yn gwerthfawrogi'r materion iechyd a diogelwch yn y mater yma.

**159. Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 11, Cysgod y Graig
(2) 3, Karen Court
(3) 17, Stryd y Parc
(4) Norpark
(5) Segrwyd Isa

Ynglŷn â'r ddau gais a dderbyniwyd ar gyfer safle Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, roedd y cyfarfod o'r farn fod angen mwyn o amser i ystyried y ceisiadau. Cytunwyd i ofyn am estyniad amser.

2. Materion Cynllunio eraill. (1) Nodwyd pum tystysgrif cynllunio a dderbyniwyd.

**160. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor** (1) Cymorthdaliadau: Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd a chymeradwywyd pob un cais oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Gwefr Heb Wifrau | - | £1,039.92 (A.137)(rhif siec 005519) |
| (2) | Urdd | - | £150 (A.145)(rhif siec 005520) |
| (3) | Cymdeithas Strôc | - | £100 (A.137)(rhif siec 005521) |

(4) Ynglŷn â'r cais a dderbyniwyd oddi wrth Ford Gron Dinbych roedd yr wybodaeth ychwanegol a ofynnwyd amdano wedi ei dderyn ar ôl cyfarfod yr is bwyllgor cymorthdaliadau. Er hynny, cytunwyd i ohirio'r cais ymhellach er mwyn i'r is bwyllgor cymorthdaliadau ei ystyried ymhellach.
(5) Gohiriwyd y cais a dderbyniwyd oddi wrth Glwb Golff Dinbych er mwyn cael cyfrifon diweddaraf / manylion ariannol.

**161. Adroddiadau**: (1) Thomas Gee. Cafwyd diweddariad gan glerc y dref ar y cynlluniau i ddathlu 200 pen-blwydd geni Thomas Gee. Roedd yr holl drefniadau yn symud ymlaen yn esmwyth.

(2) Rheolaeth Neuadd y Dref. Derbyniwyd a chymeradwywyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(3) Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf. Derbyniwyd a chymeradwywyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(4) Clwb Bowlio Dinbych. Cafwyd adroddiad byr llafar gan y Cyng Rob Parkes ar gyfarfod diweddar. Roedd y clwb yn teimlo'n rhwystredig oherwydd diffyg cysylltiad oddi wrth GSDd.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**162. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Geraint Williams - (1) Yn delio gyda nifer o broblemau unigol yn y ward. (2) Ynghyd a'r Cyng. Colin Hughes a Gwyneth Kensler roedd y Cyng. Williams wedi mynychu cyfarfod yn y Guildhall ynglŷn â thoriadau i gyllideb CSDd. Roedd y cyfarfod o'r farn na fu digon o ymgynghori. Yn ol pob golwg nid oedd rhaid i GSDd ymgynghori. Roedd y nifer o "drawiadau" a wnaed yn llai na 1% o boblogaeth y sir. Roedd y grŵp yn trefnu cyfarfod arall ym mis Ionawr 2015.

2. <u>Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley</u>: (1) Cyn Safle Kwik Save. Roedd y safle bellach wedi ei gwerthu. Home Bargains yn cymryd drosodd hen adeilad Kwik Save. Eraill a diddordeb mewn ymsefydlu ar y safle: Aldi, Peacocks, Iceland, Pound Shop. Bydd y datblygiad yn rhoddi hwb i'r hinsawdd economaidd ac yn darparu gwaith yn y dref. Mwy o wybodaeth ar gael ym Mis Ionawr. (2) Cofnodi cyflymder yn y Green wedi bod yn llwyddiannus. (3) Mynegwyd pryderon ynglŷn â chyflymder a sŵn ceir ar ffordd osgoi Dinbych - roedd y ffordd bellach yn cael ei phlismona gan ynnau laser. (4) Gwaith ail-wynebu Parc Myddleton wedi cychwyn. (5) Cloc y dref unwaith eto yn colli amser and yn achosi nifer o bryderon cyhoeddus. (6) Safle Lôn Ganol ar werth drwy gynigion wedi ei selio, i'w hagor ar Ionawr 23ain 2015. (7) Roedd Cadair Eisteddfod 2013, ar ol taith o amgylch llyfrgelloedd y sir, bellach yng Ngharchar Rhuthun ac nid yn Llyfrgell Dinbych fel y cytunwyd yn wreiddiol. Cafwyd addewid y bydd yn dychwelyd i Lyfrgell Dinbych mewn amser. (8) Cliriwyd ochr y ffordd ar hyd ffordd osgoi Dinbych.
Ymatebodd y ddau gynghorydd sir i gwestiynau ar (1) Beth oedd i ddigwydd i'r biniau gwyrdd ar ol mis Ionawr, (2) Pleidleisio ar doriadau cyllideb CSDd a bod pobl yn cael eu targedu yn annheg drwy gyfrwng "social media", (3) Cynigion wedi eu selio, (4) Safle Lôn Ganol a'r gobaith na fydd yn dioddef yr un dynged a safle Cyn Ysbyty Gogledd Cymru.

**163. Cyfrifon** 1. <u>Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:</u>

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | SLCC - aelodaeth clerc y dref 2015<br>(Rhif siec 005510) | - | £210.00 |
| (2) | CSDd - atgyweirio goleuadau Nadolig (cofnod 106(4)92) yn cyfeirio)<br>(Rhif siec 005511) | - | £907.62 |
| (3) | CSDd - tynnu i lawr bunting<br>(Rhif siec 005512) | - | £288.00 |
| (4) | CSDd - arwyddion cau ffyrdd a rhwystrau noson tan gwyllt<br>(Rhif siec 005513) | - | £309.16 |
| (5) | Marian Ll. Rees - gwasanaeth cyfieithu 24.11.14<br>(Rhif siec 005514) | - | £102.00 |
| (6) | Sandra Williams - gwasanaeth cyfieithu 10.11.14 & 17.11.14<br>(Rhif siec 005515) | - | £260.40 |
| (7) | ADT - atgyweirio CCTV - galwadau allan x 2<br>(Rhif siec 005516) | - | £706.80 |
| (8) | Canda Copying - costau llungopïwr<br>(Rhif siec 005517) | - | £159.98 |
| (9) | Sodexo - cynnal a chadw gardd Dr E P<br>(Rhif siec 0055180) | - | £605.88 |

Cyfanswm taliadau: £3,549.84

**2.** Unrhyw faterion ariannol eraill**:** (1) Nodwyd yr adroddiad ariannol misol cyfnod 1.4.14 - 30.11.14.
(2) Rhoddwyd caniatâd i glerc y dref / swyddog cyllid i dalu unrhyw gyfrifon a dderbynnir rhwng Rhagfyr 16eg 2014 a chyfarfod nesaf y cyngor ar Ionawr 12fed 2015.
(3) Ystyriwyd a derbyniwyd y dyfynbris a dderbyniwyd ar gyfer cyfrifiadur newydd ac eitemau eraill i'r Grŵp Archif Cymunedol yn y swm o £832 & TAW.
(4) Cytunwyd fod adroddiad cyfrinachol clerc y dref ynglŷn â'r cynilion oedd yn bosibl ar gyllideb y cyngor yn cael ei drin o dan Ran 2.

**164. Darlithoedd Treftadaeth 2015.** Cyfeiriodd clerc y dref at y rhaglen drafft. Cytunwyd ar gadeiryddiaeth pob darlith.

Yn y fan yma symudodd y cyfarfod i Ran 2

Yn dilyn cwblhau'r busnes o dan Ran 2 ac am nad oedd mwy i'w drafod, Dymunodd y cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ac yna terfynwyd y cyfarfod am 8.20 o'r gloch.

Arwyddwyd:......................................................... (cadeirydd)

Dyddiad:.........................